**DRAFFT**

**Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD 09-00 (drafft o'r cofnodion)**

**Dyddiad:** 6ed Rhagfyr 2000, am 2pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)

Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janice Gregory, Ogwr

Christine Gwyther, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Brian Hancock, Islwyn

Karen Sinclair, De Clwyd

Gwenda Thomas, Castell Nedd

*Swyddogion*

Julie Grant, Clerc y Pwyllgor (ymadawol)

Andrew George, Clerc y Pwyllgor (olynol)

Jill Thomas, Dirprwy Glerc

David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol

*Eraill*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd**

1. Croesawyd pawb gan gynnwys Christine Gwyther a Karen Sinclair a oedd wedi cymryd lle Richard Edwards a Val Feld i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Diolchwyd i Mr Edwards a Ms Feld am eu cyfraniad gwerthfawr i'r Pwyllgor. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Christine Humphreys a Gareth Jones, y naill a'r llall yn absennol o ganlyniad i salwch. Dymunodd y Cadeirydd wellhad buan iddynt.
2. Croesawyd Andrew George, a benodwyd yn Glerc y Pwyllgor gan y Cadeirydd hefyd. Diolchodd i Julie Grant, y Clerc ymadawol am ei chyngor a'i chymorth i'r Pwyllgor a werthfawrogwyd yn fawr yn ystod ei flwyddyn ffurfiannol.
3. Cadarnhaodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod diwethaf (STD 08-00 min) yn gofnod cywir yn amodol ar un diwygiad teipograffyddol bach.

**DRAFFT**

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac arolwg o'r camau a gymerwyd yn deillio o STD-08-00**

Papur STD-09-00(1)

4. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.
5. Materion yn Codi: Cydnabu'r Pwyllgor mai mater i'r Llywydd yw goruchwylio ymddygiad yr Aelodau yn y Siambr.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestr buddiannau'r Aelodau**

Papur STD-09-00(2)

5. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.
6. Materion yn Codi: Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth na chaiff manylion y personau sy'n gweld y Gofrestr eu cofnodi.

**Eitem 4: Blaenraglen waith y Pwyllgor**

Papur STD-09-00(3)

7. Trafodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'n ddymunol i'r Pwyllgor gael blaenraglen waith. Gofynnodd yr Aelodau i'r Ysgrifenyddiaeth ddarparu amserlen dros dro ar gyfer y rhaglen i'w hystyried ganddynt, er y cydnabuwyd y byddai angen i'r Pwyllgor ystyried materion brys megis gwrandawiadau cwynion fel y byddant yn codi. Nodwyd y pwyntiau canlynol hefyd:

*Mater 1 – Buddiannau Anuniongyrchol* – cydnabuwyd gan y Pwyllgor y byddai’r mater hwn yn cael ei arolygu fel blaenoriaeth yng ngoleuni’r cyngor cyfreithiol a gafwyd ynglí n â threfniadau presennol y Cynulliad.

*Mater 2 – Rôl Ymgynghorwyr Annibynnol* – caiff hyn ei ystyried yng ngoleuni ein profiad a phrofiadau gweinyddwyr eraill sydd wedi dewis adlewyrchu model San Steffan o benodi Comisiynydd Annibynnol ar Safonau.

*Mater 3 – Gweithio gyda Phwyllgorau Eraill* – bydd y Pwyllgor yn ystyried gwaith pwyllgorau cyfochrog mewn gweinyddiaethau eraill a llywodraeth leol yng Nghymru.

*Mater 4 – y Seiri Rhyddion* – mae’n bosibl y bydd gofyn i’r Pwyllgor ystyried a oes gan ddeddfwriaeth Hawliau Dynol unrhyw oblygiadau o ran y gofynion sydd ar Aelodau i gofrestru a datgan eu buddiannau.

**Gweithredu :** Yr Ysgrifenyddiaeth i ddarparu blaenraglen waith ddiwygiedig gydag amseroedd i’w hystyried gan y Pwyllgor.

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

*Hysbysebu*

8. Trafododd y Pwyllgor y defnydd o’r cyfleusterau hysbysebu o amgylch adeiladau’r Cynulliad a chytunwyd y byddai’n addas codi unrhyw bryderon ynglí n â’r hysbysebion a arddangosir gyda’r Asiantaeth Safonau Hysbysebu.

*Dyddiad y Cyfarfod Nesaf*

9. Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2001.

**Eitem 6: C003-00**

10. Gwrandawiad a gynhaliwyd mewn sesiwn gaeëdig.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau

Swyddfa’r Llywydd